**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH 22AIN CHWEFROR 2023**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD) & Austin Roberts (AR)

**1.3** Ymddiheuriadau: Sara Thomas (ST), Einir Williams (EW) & Gwydion Jones (GJ)

Cadarnhaodd CR fod swydd y clerc wedi ei lenwi yn dilyn cyfweliadau diweddar, penodwyd Catrin Griffiths fel clerc. Cynghorwyr i gyd yn cefnogi'r penodiad ac yn croesawu Catrin i'r cyfarfod.

Croesawodd CR hefyd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod oedd wedi gofyn i gael siarad o flaen llaw yn y cyfarfod - Non Davies & Seth Jones.

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION I'W GWIRO 25AIN IONAWR 2023

Cynnigwyd yn gywir yn dilyn newid fformat gan MD ac eilwyd gan DR.

## 4 MATERION YN CODI

11 – DR wedi gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir ynglyn â mater Brook House, wedi cydnabod fod gwybodaeth anghyson ac eu bod wedi pwyso a mesur yr achos ac wedi penderfynu rhoi'r dystysgrif. DR ddim yn meddwl fod y Cyngor wedi ymholi efo'r Heddlu ynglyn â'r safle. Trafodaeth fod y mater yn agor y drysau i osod cynsail ar gyfer achosion tebyg yn y dyfodol.

AV – parthed Partneriaeth Ogwen, Gareth Roberts o Menter Fach Wen yn mynychu'r Gymdeithas Hanes ar 15fed Mawrth, croeso i bawb.

7.1 – Cododd MGD y mater o'r siec i'r Cyngor Sir, siec dal heb ei thalu i mewn. Trefnu canslo'r siec wreiddiol a gyrru un newydd (trafodwyd isod 8.1).

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** 0/50290: DR, JR & MD ddim wedi medru agor y cais. Adroddodd AR fod y cais wedi ei dynnu yn ôl wythnos diwethaf ac eglurodd AR y bydd y cais yn cael ei ail-gyflwyno yn dilyn delio â mater ynglyn â defnydd y sied ar y safle.

**5.2** 0/50476: DR, JR & MD ddim wedi medru agor y cais. Gofynnodd DR lle oedd safle y sied oherwydd fod o fewn ardal cadwraeth. Pryder fod darn o'r ffens wedi ei dynnu i lawr. Soniodd AR fod angen i'r sied weddu'r ardal gadwraeth. MGD o ran egwyddor, dim ond sied bren yn yr ardd ond yn weledol o fewn yr ardal gadwraeth. Cynghorwyr i gyd yn gytun i adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir fod pryder fod y datblygiad o fewn ardal gadwraeth ac yn weladwy o'r ffordd oherwydd fod y ffens wedi ei dynnu.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Cyflenwyr bagiau baw ci: AV wedi siarad efo cynghorydd mewn ardal arall oedd wedi prynu cyflenwyr bagiau baw cŵn efo nawdd. Cododd JR ei bod wedi cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod 20 bag baw ci wedi ei daflu i gae cyfagos ac ar frigau'r coed gerllaw. JR wedi ymweld â'r safle a wedi gweld fod baw ci ar y llawr hefyd ddim yn bell o gwbl o'r biniau baw ci. MGD hefyd wedi sylwi yn ddiweddar fod perchnogion cŵn yn mynd am gyfeiriad Rhos y Mawn a fod bagiau baw ci yn ymddangos ar y cloddiau yn yr ardal hono. Cynnigiodd AR fod

arwyddion yn cael eu gosod. Soniodd DR fod y baw yn gallu peryglu anifeiliaid eraill a pobl. Gofynnodd MGD os oedd gan y Cyngor Sir bosteri ayyb i osod yn y fro ac os oedd warden cŵn fyddai'n medru dod allan i'r ardal. AR i wneud ymholiadau. Cwmni allannol wedi bod yn rhoi dirwyon allan ar y glannau a pobl yn cwyno. DR wedi anfon ebost i'r adran goleuadau stryd i holi os oedd modd rhoi'r cyflenwyr yma ar bolion golau, heb gael ateb eto. Gofynnodd CR os oedd modd gofyn wrth BT am ganiatad i roi'r cyflenwyr ar eu polion nhw, AR am adrodd yn ôl yn dilyn ymholiad efo'r Cyngor Sir. DR am holi'r Cyngor Sir hefyd os y caiff gyflenwad o bamffledi ynglyn â baw cŵn eto.
Soniodd AV fod y cynghorydd o ardal arall wedi sôn fod grantiau i fyny at 75% ar gael i brynu cyflenwyr a bagiau. CR am wneud ymholidadau efo Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â hyn. Mater i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

**6.2** Goleuadau: AR yn gofyn am gadarnhad gan y Cyngor Cymuned i basio ymlaen i'r Cyngor Sir fod y Cyngor Cymuned am gario ymlaen efo'r goleuadau cyn mynd ymlaen i drefnu cyfarfod pellach i gadarnhau lleoliadau pendant. Cynghorwyr i gyd yn gytun i gario ymlaen efo'r mater yma, CR am ofalu gyrru'r ebost ar ran y Cyngor Cymuned. AR am gysylltu efo'r Cyngor Sir wedyn i drefnu cyfarfod safle.

**7 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR**

(*newidwyd trefn yr agenda yn ystod y cyfarfod i drafod yr eitem yma ar ôl Materion Cyngor)

Tir tu ôl i'r ysgol, AR wedi cyfarfod efo Huw Richards yn gynharach yn y mis, dogfennau ddim ar gael i'w gweld yn yr ysgol pan fuont yno. Huw Richard wedi cadarnhau taw cyfrifoldeb y Cyngor Sir, tir *surplus* felly y Cyngor yn medru darganfod defnydd newydd i'r safle. Wedi derbyn ebost wedyn yn cadarnhau taw'r adran addysg sydd yn gyfrifol am y safle tir.
Cais wedi bod am randiroedd yn yr ardal, wedi ei drafod o'r blaen ac y byddai modd i bobl o ardaloedd eraill yn y sir wneud cais a hefyd fod y safle yn agos iawn i'r ysgol felly pryder am ddiogelwch y plant.
Adroddodd MGD fod pryder gan yr ysgol fod y tir ddim yn cael ei reoli ar hyn o bryd. Pwysleisiodd AR fod sicrwydd na fyddai'r adran addysg yn pasio unrhyw gostau ymlaen i'r ysgol ac yn hytrach y byddant yn elwa o'r tir. Unwaith bydd datblygiad pellach, bydd AR yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned a'r ysgol.
Canolfan Gwytherin – wedi cael cyfarfod ar y safle fel grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf efo cynyrchiolwyr o'r gwahanol asiantaethau. Roedd pawb yn gytun na fyddai modd codi arian digonnol i adnewyddu'r tŷ. AR wedi gofyn wrth y cynyrchiolwyr o bwyllgor y ganolfan oedd yn bresennol os byddai modd iddynt redeg y ganolfan heb incwm o'r tŷ, roeddynt yn hyderus y buasent yn medru cario ymlaen. Problem y Cyngor Sir fydd y tŷ wedyn, ddim y pwyllgor.
Llwybr 50 bellach yn agored, gwaith wedi ei gwblhau.
EW wedi gofyn yn ystod y cyfarfod diwethaf am arwydd anaddas i HGV yn Gwytherin. Map a yrrwyd ymlaen gan EW ddim digon da, AR am wneud ymholiadau efo EW i ymweld â'r safle.

Gofynnodd DR am Allt Tyn Pistyll, sawl car wedi mynd yn sownd ar dop yr allt yn ddiweddar ac os oedd modd rhoi tarmac yno, adrododd AR y byddai'r Cyngor Sir yn medru rhoi scalpings ar y ffordd. Soniodd JR fod angen scalpings ar ffordd Hafodunos hefyd. AR yn mynd o amgylch yr ardal efo Emyr Jones o'r Cyngor Sir i weld y ffyrdd yn ystod yr wythnosau nesaf.
Gofynnodd MD pwy oedd yn gyfrifol am y goleuadau traffic ger y Bridge. Trafodaeth taw Dŵr Cymru oedd wedi bod yn gwneud gwaith yno. Adrododd AR y byddai cais wedi ei wneud i'r Cyngor Sir ar eu cyfer.

Gofynnodd DR pa mor hir fyddai'r goleuadau ger y siop yno, doedd AR ddim yn gwybod a fod rhain yn gyfrifoldeb perchennog y safle. AR am ofyn wrth yr ardan gynllunio pa mor hir fydd y goleuadau yno.

**8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Siec costau etholiad wedi ei chymeradwyo ym mis Tachwedd, MGD wedi derbyn cyfriflen a nid oedd y siec wedi ei chyflwyno. Trafodaeth y byddai cost ar gyfer canslo'r siec. Pawb yn gytun i ganslo'r siec wreiddiol a gyrru un newydd.

**8.2** Hysbysebu swydd clerc yn lleol.cymru, gofyn am daliad BACS neu ar lein, £180 yn cynnwys TAW. Pawb yn gytun i dalu. MGD am wneud ymholiadau ynglyn a talu efo siec.

**9 GOHEBIAETH**

**9.1** Eisteddfod Dyffryn Conwy yn gofyn am gyfraniad, pawb yn gytun i gyfranu £30.

**9.2** Pwyllgor Menter Bro Cernyw yn gofyn am £500 fel sydd yn y presept (AV yn datgan diddordeb). Pawb yn gytun i dalu.

**9.3** Dŵr Cymru ynglyn â Mynwent Llangernyw yn hysbysu na fyddant yn derbyn sieciau o 30$^{ain}$ Ebrill 2023. Cododd MGD fod angen sgwrs fel Cyngor i ddelio efo bancio yn mynd ymlaen. Pawb yn gytun i MGD wneud ymholiadau ar gyfer bancio digidol.

**10 BILIAU**

**10.1** Enlli £184.86, cytunwyd i dalu.

**10.2** Lleol.cymru fel drafodwyd uchod £180, cytunwyd i dalu.

**10.3** Menter Bro Cernyw fel drafodwyd uchod £500, cytunwyd i dalu.

**11 MATERION LLEOL**

Gwahoddodd CR aelodau'r cyhoedd oedd wedi gofyn i gael siarad:

Diolchodd Non Davies am gydweithrediad y Cyngor Cymuned i gael y cofnodion yn gywir ar gyfer cyfarfod 25$^{ain}$ Mai 2022. Atgoffodd bawb am y cyfarfod nos Lun nesaf 27$^{ain}$ Chwefror 2023 yn y neuadd. Nododd nad oes angen rhoi enw o flaen llaw fel rhybydd a nad oedd terfyn amser i siarad chwaith fel sydd angen efo'r Cyngor Cymuned.

Dywedodd Seth Jones nad oedd cofnodion cyfarfod 25$^{ain}$ Mai 2022 wedi cofnodi ei fod wedi cael rhybydd na'r rheswm am hynny. Nododd MGD fod y rhybydd wedi ei wneud oherwydd fod aelodau'r cyhoedd yn cymeryd rhan yn y cyfarfod tu allan i'r 3 munud o amser yr un oedd wedi ei glustnodi iddynt. Seth Jones am ddweud ei fod yn bwysig fod y cofnodion yn gywir. Ategodd sylwadau Non Davies fod croeso i bawb ymuno yn y cyfarfod nos Lun 27$^{ain}$ Chwefror 2023 yn Llangernyw.

Gofynnodd DR os fyddai modd rhoi adroddiad Un Llais ar agenda'r cyfarfod nesaf.

**DR** wedi cael cwynion fod mwd difrifol ar allt Garnedd yn ddiweddar, wedi clirio bellach ond cwynion wedi dod i law. Wedi sylwi os oes mwd ar y ffordd ger Farm Yard, Llanrwst, fod arwydd yn cael ei roi i fyny. Gofyn i bobl fod yn mwy gofalus os oes mwd yn cario i'r ffordd.
Afon yn bwyta ochr cae yn Llangernyw, angen i'r tirfeddianwr godi pryder efo Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddodd MGD fod gwaith wedi bod yn cael ei wneud ar yr afon yn ddiweddar.
**AV** yn nodi fod angen ail-osod arwydd Dim Cŵn yn ôl ym mynwent Llangernyw. MD am fynd i'w ail osod.
Adroddodd ei bod hi a CR wedi mynychu mynwent Llangernyw ddoe ac wedi penodi rhes newydd ar gyfer beddau i gladdu llwch yn unig.

Wedi cael galwad gan Dei Evans ynglyn â torri gwair yn y mynwentydd a gofyn os oedd y contract dwy flynedd yn dal i redeg, CR wedi edrych ar y contract a chadarnhau fod y contract yn dal i redeg. AV am gysylltu efo Dei Evans i gadarnhau fod y contract yn dal i redeg am eleni.
Angen trefnu Pwyllgor Mynwentydd cyn y cyfarfod nesaf.
**JR** soniodd tasai argyfwng ym mhentre Llangernyw, mae safle ar gyfer hofrennydd i lanio tu ôl i Parc Aelas, goriad i'r giat gan Don.

Diolchodd CR i Non Davies & Seth Jones am fynychu'r cyfarfod.

**12 CYFARFOD NESAF**

29ain Mawrth 2023 ym Mhandy Tudur
Cyfarfod yn dod i ben 9yh
Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan